# Asesu risg niwed i unigolion

## Trosolwg

Mae'r safon hon yn ymwneud ag asesu risg niwed i unigolion. Mae'n ymwneud â chynnwys yr unigolyn, lle bynnag y bo'n bosibl, yn yr asesiad ac wrth gytuno ar yr anghenion a'r gofynion cymorth y mae angen mynd i'r afael â nhw.

Yna, bydd y deilliannau canlyniadol yn llywio datblygu a gweithredu cynlluniau ymyrryd priodol, gyda safonau galwedigaethol cenedlaethol ar wahân, ond cysylltiedig, yn mynd i'r afael â'r gweithgarwch hwnnw.

## Meini prawf perfformiad

*Rhaid i chi allu:*

1. esbonio eich rôl a'ch cyfrifoldebau i unigolion
2. trefnu bod trafodaethau'n cael eu cynnal gydag unigolion mewn amgylchedd priodol a diogel
3. cadarnhau polisi eich sefydliad ar gyfrinachedd, gan gynnwys ar bwy y gall fod angen gwybodaeth, a'r amgylchiadau pryd y gellir datgelu gwybodaeth
4. cadarnhau bod yr unigolyn yn hapus i fwrw ymlaen
5. cyfathrebu mewn ffyrdd sy'n briodol i anghenion ac amgylchiadau unigolion
6. caniatáu i unigolion symud ymlaen yn ôl eu cyflymder eu hunain, gan eu trin gydag urddas a pharch, a gwrando a gwirio'u bod yn deall
7. cynnal asesiad risg yn unol â pholisïau a gweithdrefnau'r sefydliad
8. cwblhau'r asesiad priodol yn unol â pholisïau a gweithdrefnau'r sefydliad
9. gwirio bod eich asesiad risg yn cael ei osod yng nghyd-destun amgylchiadau'r unigolyn, a bod modd ei amddiffyn
10. defnyddio'ch crebwyll proffesiynol i asesu arwyddocâd sefyllfa gyffredinol yr unigolyn er mwy pennu lefel y risg a nodi meysydd â blaenoriaeth ar gyfer ymyriadau a chymorth
11. nodi unrhyw amgylchiadau pryd y gallai unigolion neu eu dibynyddion fod yn fregus
12. cynnwys unigolion yn yr asesiad risg, gan esbonio'r broses a ddefnyddir a'r sail resymegol ar gyfer y deilliannau canlyniadol
13. rhoi esboniad i unigolion o effaith y ffactorau risg ac amddiffynnol a nodwyd
14. esbonio'r opsiynau sydd ar gael i unigolion a chytuno ar yr opsiynau sy'n well ganddynt a chamau gweithredu cysylltiedig
15. pennu dulliau ymdopi'r unigolion eu hunain a chytuno ar ddulliau a allai gael eu datblygu
16. defnyddio gweithdrefnau cytunedig a phrotocolau priodol ar gyfer cydweithio amlasiantaethol
17. gwirio bod gweithdrefnau perthnasol wedi'u cytuno arnynt gydag unigolion a'u bod ar waith i roi cymorth parhaus i'r unigolion, mor aml ag y bo'n briodol i lefel y risg a nodwyd
18. rhybuddio pobl berthnasol lle y byddwch yn amlygu pryderon am y risg niwed i unigolion, gan gynnwys dibynyddion, lle bo hynny'n berthnasol
19. gwirio bod modd cyfiawnhau ac amddiffyn eich dadansoddiad, a bod sail

resymegol glir dros eich casgliadau, argymhellion cysylltiedig a chynlluniau dilynol, yn unol â pholisïau a gweithdrefnau sefydliadol

20. darparu eich adroddiad i'r person perthnasol, yn unol â pholisïau a gweithdrefnau'r sefydliad
21. cynnal cofnodion yn unol â pholisïau a gweithdrefnau'r sefydliad

## Gwybodaeth a dealltwriaeth

*Mae angen i chi wybod a deall:*

1. gofynion cyfreithiol, sefydliadol a pholisi sy’n berthnasol i’ch rôl chi, i rôl pobl eraill yn eich sefydliad ac i’r gweithgareddau sy’n cael eu cyflawni
2. y canllawiau, y polisïau a’r gweithdrefnau lleol a chenedlaethol perthnasol sydd ar gael a sut a phryd y dylid troi atynt
3. rôl asiantaethau eraill wrth ddarparu cymorth ac ymyriadau i unigolion
4. cyfyngiadau eich awdurdod a’ch cyfrifoldeb, a’r camau i’w cymryd os eir y tu hwnt iddynt
5. gweithdrefnau rheoli achosion sy’n cael eu defnyddio gan eich sefydliad a’ch cyfrifoldebau o fewn y rhain
6. offerynnau neu brosesau asesu risg perthnasol a sut i ymgymryd â’r rhain
7. y wybodaeth sy’n ofynnol er mwyn gwneud asesiad o unigolion, yn briodol i fynd i’r afael â’r risgiau iddynt
8. dulliau o asesu risg niwed i unigolion
9. yr ystod o ymyriadau sydd ar gael a sut i amddiffyn unigolion rhag niwed
10. dulliau o wirio a chadarnhau’r wybodaeth sy’n angenrheidiol
11. ffactorau sy’n effeithio ar freguster unigolion
12. sut i wahaniaethu rhwng tystiolaeth a welwyd yn uniongyrchol, tystiolaeth o ffynonellau dibynadwy ac adroddiadau ail-law
13. dangosyddion cyffredin fod gan unigolion broblemau posibl yn gysylltiedig â’u hiechyd meddwl, sy’n effeithio’n niweidiol ar eu hymddygiad, a’r camau priodol i’w cymryd pan welwch y rhain
14. asiantaethau y gellid cyfeirio unigolion atynt am help a chymorth â’u hiechyd meddwl, a’r gweithdrefnau ar gyfer symud y rhain yn eu blaen
15. yr amgylchiadau sy’n gofyn am asesiadau ychwanegol a sut i drefnu’r rhain
16. yr amgylchiadau pan ystyrir fod risg i unigolion, bod angen cymorth penodol arnynt, cynllun rheoli risg cysylltiedig, a sut i symud hyn yn ei flaen
17. sut i greu amgylchedd sy’n gwneud i unigolion deimlo’n gartrefol
18. sut mae croestoriadedd yn effeithio ar brofiad unigolyn o wasanaethau
19. gwahanol ymatebion i drawma a’u heffaith
20. sut i gymhwyso ymarfer sy’n ystyriol o drawma yn eich maes ymarfer
21. sut i gymhwyso dull dan arweiniad anghenion, seiliedig ar gryfderau, yn benodol i fodloni anghenion yr unigolyn
22. mathau o freguster neu lefelau niwed y dylid eu hystyried wrth asesu risg a’u

dangosyddion
23. arddulliau a ffurfiau cyfathrebu gwahanol a sut i'w haddasu i fodloni anghenion yr unigolyn
24. yr ystod o arddulliau a thechnegau cyfathrebu sydd ar gael, gan gynnwys pryd a sut i'w haddasu
25. pwysigrwydd cyfathrebu dieiriau, a sut mae gwahanol ddiwylliannau yn defnyddio ac yn dehongli iaith y corff mewn ffyrdd gwahanol
26. rhwystrau cyffredin rhag cyfathrebu a ffyrdd o'u goresgyn
27. pwysigrwydd bod yn ymwybodol o'ch gwerthoedd a'ch credoau eich hun, a'u heffaith ar eich gallu i herio agweddau ac ymddygiad sy'n gwahaniaethu neu a allai fod yn niweidiol
28. cyfyngiadau cyfrinachedd sy'n berthnasol i'ch rôl
29. yr amgylchiadau pan mae angen mynd yn groes i ddymuniadau unigolion a phwysigrwydd sicrhau eu bod yn deall beth sy'n digwydd a pham
30. sut i gynnal cofnodion yn unol â pholisïau a gweithdrefnau'r sefydliad

Asesu risg niwed i unigolion

| | |
|---|---|
| **Datblygwyd gan** | Skills for Justice |
| **Fersiwn rhif** | 3 |
| **Dyddiad cymeradwyo** | 26 Mai 2023 |
| **Dyddiad Adolygu Dangosol** | 26 Mai 2028 |
| **Dilysrwydd** | Ar hyn o bryd |
| **Statws** | Gwreiddiol |
| **Sefydliad cychwynnol** | Skills for Justice |
| **RCU gwreiddiol** | SfJ BE101 |
| **Galwedigaethau perthnasol** | Gwasanaethau Cyhoeddus, Gweithiwr Lloches, Gweithiwr Argyfwng, Cynghorydd Annibynnol Trais Domestig (IDVA) |
| **Cyfres/Set** | Atal a mynd i'r afael â cham-drin domestig a thrais rhywiol |
| **Geiriau Allweddol** | Asesu, risg, difrifol, niwed, unigolion |